Diwedd Oes Gwell 2024

# Amser i ofalu yng Nghymru

Goblygiadau i Gymru yn sgil 'Amser i ofalu: Canfyddiadau arolwg cynrychiolaeth genedlaethol o brofiadau diwedd oes yng Nghymru a Lloegr

**Briff polisi**

**Awst 2024**

Marie Curie

# Cyd-destun

Maenifer y bobl y mae angen gofal lliniarol a diwedd oes arnynt yng Nghymru'n cynyddu. Wrth i'n poblogaeth heneiddio, mae mwy o bobl yn byw'n hirach, yn aml gyda chyflyrau cymhleth lluosog. Yn 2019, amcangyfrifwyd bod angen gofal lliniarol ar 30,000 o bobl yng Nghymru [1]. Erbyn 2022, roedd hyn wedi codi i dros 32,000. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd tua 37,000 o bobl yn marw gydag anghenion gofal lliniarol bob blwyddyn erbyn y 2040au.

Mae'r gwasanaeth iechyd yn wynebu pwysau ariannol eithafol. Gyda lefelau sylweddol o gostau gofal iechyd yn codi yn ystod blwyddyn olaf oes, mae gan ddulliau cynllunio a darparu gofal diwedd oes oblygiadau enfawr i'r GIG ac i wariant cyhoeddus yn ehangach. Mae sicrhau bod gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn diwallu anghenion pobl yn effeithiol ac yn effeithlon yn elfen hanfodol o wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy. Gan fod marw, marwolaeth a phrofedigaeth yn effeithio ar bob un ohonom, mae hi er budd pawb i ni gael hyn yn iawn.

Ym mis Hydref 2022, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes mewn Datganiad Ansawdd [2]. Mae hyn yn disgrifio'r hyn y mae angen i wasanaethau ei ddarparu er mwyn i ofal fod yn ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, i ganolbwyntio ar yr unigolyn a bod yn effeithlon ac yn deg. Yn anffodus, mae'r dyfyniadau a'r data yn y briffio hwn yn dangos bod ffordd bell i fynd cyn i hyn ddod yn realiti i bawb. Mae gormod o bobl yn marw mewn poen, heb y gofal a'r gefnogaeth mae eu hangen arnyn nhw a'u teuluoedd.

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi canfyddiadau arolwg a anfonwyd at sampl gynrychioliadol genedlaethol o 1,500 o bobl yng Nghymru a oedd wedi cofrestru marwolaeth rhwng Awst a Rhagfyr 2022. Cafwyd 557 o ymatebion, sy'n golygu mai dyma'r arolwg cenedlaethol ôl-brofedigaeth mwyaf erioed i gael ei gynnal yng Nghymru.

Cynhyrchwyd yr ymchwil y mae'r briff hwn yn seiliedig arni trwy'r rhaglen Diwedd Oes Gwell, sef cydweithrediad rhwng Marie Curie, Sefydliad Cicely Saunders Coleg y Brenin Llundain, Ysgol Feddygaeth Hull York, Prifysgol Hull, a Phrifysgol Caergrawnt. Adroddiad ymchwil Diwedd Oes Gwell, Amser i Ofalu: Gellir darllen canfyddiadau arolwg cynrychiolaeth genedlaethol o brofiadau diwedd oes yng Nghymru a Lloegr yma: mariecurie.org.uk/better-end-life-report

# Canfyddiadau allweddol

## Mae gormod o bobl yn marw mewn poen a heb y cymorth mae ei angen arnynt ar gyfer eu symptomau

- Cafwyd effaith ddifrifol neu lethol ar fwy nag un o bob tri o bobl oherwydd poen (36%) neu ddiffyg anadl (40%) yn ystod wythnos olaf eu bywyd, ac roedd llawer yn teimlo'n bryderus ac yn isel.
- Roedd un o bob naw (11%) o bobl a fu farw yn yr ysbyty wedi bod yno lai na 24 awr.
- Roedd trafferthion wrth gael meddyginiaethau yn gyffredin, yn enwedig 'y tu allan i oriau'.
- Mae anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal lliniarol yn parhau, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai sydd â diagnosis nad yw'n ganser.

## Mae bylchau mewn gofal cymunedol 24/7 yn atal pobl rhag marw mewn cysur gartref

- Mae'r rhan fwyaf o ofal diwedd oes yn digwydd yn y gymuned: Treuliodd 60% o bobl y rhan fwyaf o'u tri mis olaf mewn cartref preifat ac roedd 22% mewn cartref gofal yn bennaf, ac roedd 13% wedi treulio'r rhan fwyaf o'u tri mis olaf yn yr ysbyty.
- Roedd y defnydd o ofal brys yn uchel, gyda bron i hanner y bobl fu farw yn defnyddio ambiwlans (48%) neu'n ymweld ag adrannau damweiniau ac achosion brys (45%) yn ystod eu tri mis olaf.
- Roedd 94% o ymatebwyr yr arolwg yr oedd aelod o'u teulu wedi marw gartref yn teimlo mai dyma'r lle iawn, o'u cymharu â 73% o'r rhai y bu farw'r aelod o'u teulu mewn cartref gofal a 66% o'r rhai y bu farw'r aelod o'u teulu yn yr ysbyty. Nid oedd gan bron i hanner (46%) y bobl a fu farw yn yr ysbyty unrhyw ffrindiau na theulu'n bresennol.

## Mae cleifion a theuluoedd yn dioddef pan fydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n wael, ac nid oes gan weithwyr proffesiynol amser

- Roedd bron i hanner (47%) ohonynt yn anhapus gydag o leiaf un agwedd ar y gofal a gafodd aelod o'u teulu. Gwnaeth un o bob 15 gŵyn ffurfiol.
- Yn aml, nid oedd gan staff ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddigon o amser i ddarparu gofal digonol i bobl a oedd yn marw.
- Roedd un o bob pedwar (25%) o bobl a fu farw naill ai'n debygol neu yn bendant ddim yn gwybod y gallent farw oherwydd eu salwch.
- Dywedodd mwy nag un o bob tri (37%) o'r ymatebwyr nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi trafod marwolaeth a marw gyda'r person a fu farw, tra bod un o bob pedwar (25%) yn ansicr.

## Mae gofalwyr di-dâl yn ymgymryd â rolau rhoi gofal sylweddol heb fawr o gefnogaeth

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymgymryd â rolau rhoi gofal hanfodol, ond roedd llawer yn teimlo nad oedd ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau na'r mynediad at gymorth proffesiynol mae eu hangen.

- O'r ymatebwyr sy'n dal i fod mewn gwaith, cymerodd 14% rhwng 31 a 90 diwrnod o absenoldeb â thâl neu'n ddi-dâl, wrth i 6% roi'r gorau i'w swyddi neu newid swyddi (gan gynnwys ymddeol yn gynnar), i ofalu am eu hanwyliaid.

- Roedd un o bob chwech (16%) o'r ymatebwyr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'galar aflonyddedig' – gyda phobl mewn profedigaeth a oedd yn iau, yn fenyw, neu'n briod i'r person a fu farw, yn ogystal â'r rhai a oedd â phrofiad gwael o ofal, sydd fwyaf agored i niwed.

- Nid oedd bron i bedwar o bob pump (79%) o'r rhai â galar aflonyddedig wedi derbyn unrhyw gymorth gan wasanaethau profedigaeth.

# 1 Mae gormod o bobl yn marw mewn poen a heb y cymorth mae ei angen arnynt ar gyfer eu symptomau

Bod yn rhydd o boen a symptomau eraill yw prif flaenoriaeth y rhan fwyaf o bobl ar gyfer dyddiau olaf eu bywydau [3]. Er y bydd llawer o bobl â salwch angheuol yn profi poen, gyda'r driniaeth, y gofal a'r gefnogaeth gywir, dylai fod yn bosibl rheoli hyn fel ei fod yn fwy hylaw.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod poen wedi cael effaith ddifrifol neu lethol ar fwy nag un o bob tri (36%) o bobl a fu farw yn ystod eu hwythnos olaf o fywyd, a bod diffyg anadl yn effeithio'n ddifrifol neu'n llethol ar hyd yn oed mwy (40%) arnynt. Roedd symptomau seicolegol hefyd yn gyffredin iawn yn ystod yr wythnos olaf o fywyd: Roedd gorbryder yn cael effaith ar 36% o bobl y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser, ac roedd 34% yn teimlo'n isel y rhan fwyaf o'r amser. Er nad yw'r canfyddiadau'n dweud wrthym a wnaeth symptomau'n cael eu datrys neu eu gwella, maent yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth gofal bresennol.

Roedd symptomau difrifol a llethol yn fwy tebygol o effeithio ar bobl a fu farw yn yr ysbyty yn hytrach nag yn y cartref neu mewn cartref gofal. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod pobl sydd â symptomau mwy trallodus yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd un o bob naw (11%) o bobl a fu farw yn yr ysbyty wedi bod yno llai na 24 awr, gan awgrymu mynediad heb ei gynllunio neu mewn argyfwng.

## Mynediad at feddyginiaethau ar gyfer poen a symptomau eraill

Mae meddyginiaethau yn hanfodol bwysig i reoli poen a symptomau eraill ar ddiwedd oes. Roedd ymatebion yr arolwg yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol am anawsterau wrth gael gafael ar feddyginiaethau, yn enwedig dros nos ac ar benwythnosau [4].

> **"Gwrthododd [y] meddyg teulu y tu allan i oriau ddod allan [a] dywedodd wrtha i i ffonio['r] parafeddygon [...] sy'n golygu na chafodd fy ngŵr unrhyw feddyginiaeth poen neu orbryder drwy gydol y nos. Roedd hyn yn ofnadwy i'w weld ac yn gwbl annerbyniol.**
>
> Bu farw o sawl cyflwr

Ni fydd pob fferyllfa gymunedol yn stocio meddyginiaethau diwedd oes, sy'n gallu creu problemau ychwanegol i bobl mewn ardaloedd gwledig neu heb fynediad at gar.

> **"Yn ystod yr wythnos olaf, cafodd gyrrwr chwistrell ei osod. Nid oedd gan [y] fferyllfa leol bob amser stoc o['r] meddyginiaethau a gallai amseroedd agor [y] fferyllfa dros y penwythnos fod yn broblem. Golygodd y ddau bwynt hyn fy mod i'n gorfod teithio 20 milltir i gasglu presgripsiynau a meddyginiaethau, a oedd yn tynnu amser gwerthfawr i mi gyda fy ngŵr. Hefyd, achosodd straen ychwanegol gorfod dod o hyd i rywun i eistedd gydag ef. Roedd fy ngŵr yn bryderus iawn am y sefyllfa hon.**
>
> Bu farw o sawl cyflwr

Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau arloesol i gefnogi gwell mynediad at feddyginiaethau, megis cyflwyno meddyginiaethau 'Rhag Ofn' i gerbydau brys ar draws Gwasanaeth Ambiwlans Cymru [5], a chyflwyno pecyn cymorth i ofalwyr roi meddyginiaethau di-nodwydd ar gyfer symptomau sydyn cyffredin yn y cartref [6]. Fodd bynnag, nid yw pawb a allai elwa o'r cynlluniau hyn yn gallu cael mynediad atynt.

Mae'r cynllun rhagnodi rhagfynegol 'Rhag Ofn' yn caniatáu i feddygon teulu ragnodi cyffuriau o restr gymeradwy i bobl sydd â diagnosis terfynol sydd â phrognosis o dri mis neu lai. Yna gellir cadw'r rhain yn ddiogel yng nghartref yr unigolyn i'w gweinyddu pan fydd angen, felly nid oes bylchau o ran rheoli symptomau [7]. Er bod y cynllun wedi bod ar waith yng Nghymru ers dros ddegawd, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gwahaniaethau rhanbarthol o ran sut mae'n cael ei weithredu. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n agosáu at ddiwedd ei oes a allai elwa o gefnogaeth y cynlluniau hyn yn cael mynediad atynt, yn unol â chanllawiau NICE [8].

## Mynediad at ofal lliniarol

Mae gofal lliniarol yn atal ac yn lleddfu dioddefaint trwy nodi'n gynnar, ac asesu a thrin poen a phroblemau eraill yn gywir, p'un a yw'n gorfforol, yn seicogymdeithasol neu'n ysbrydol. Mae meddygon teulu, nyrsys ardal a chymunedol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu gofal lliniarol, ac mae arbenigwyr gofal lliniarol wedi'u hyfforddi i ofalu am y rhai sydd â symptomau neu bryderon mwy cymhleth.

Er bod adborth yr arolwg am y gefnogaeth gan dimau gofal lliniarol yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd tystiolaeth gref o anghydraddoldebau mynediad yn y canfyddiadau [9].

> **"Roedd y gofal a ddarparwyd gan y tîm gofal lliniarol cymunedol yn eithriadol [...] Pe bai unrhyw faterion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, byddent yn cysylltu â'r nyrs gymunedol, a fyddai wedyn yn cysylltu â'r meddyg teulu pe bai angen.**
>
> Bu farw o ganser

> **"Ni chynigiwyd unrhyw gefnogaeth gan y tîm gofal lliniarol. Pe bai cynnig, byddem wedi ei chroesawu. Efallai y byddai gwybodaeth am ofal fy ngwraig wedi bod yn gliriach. Roedd yn teimlo fel brwydr gyson yn lle hynny. Ni ddylai wedi bod fel hyn.**
>
> Bu farw o gyflwr y galon

Pobl 85 oed neu hŷn a'r rhai a fu farw o gyflyrau heblaw canser oedd leiaf tebygol o dderbyn gofal lliniarol arbenigol, er gwaethaf tystiolaeth bod baich y symptomau'n debyg ar draws gwahanol gyflyrau. Mae angen gweithredu ar lefel polisi cenedlaethol a darpariaeth gwasanaethau lleol i gyflawni'r ymrwymiad yn natganiad ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau mynediad a ddangosir.

**Derbyn gofal gan arbenigwyr gofal lliniarol (mewn unrhyw leoliad) yng Nghymru yn ystod tri mis olaf bywyd ar draws y pum achos marwolaeth mwyaf cyffredin**



**(Ffynhonnell: Johansson et al., 2024, t. 99)**

# 2 Mae bylchau mewn gofal cymunedol 24/7 yn atal pobl rhag marw mewn cysur gartref

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod y rhan fwyaf o ofal diwedd oes yn digwydd yn y gymuned. Yn ystod tri mis olaf eu bywydau, treuliodd 60% o'r bobl a fu farw y rhan fwyaf o'u hamser mewn cartref preifat ac roedd 22% mewn cartref gofal yn bennaf, ac roedd un o bob wyth (13%) wedi treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr ysbyty. Mae meddygon teulu, nyrsys ardal a chymunedol, a chynorthwywyr gofal iechyd yn chwarae rôl hanfodol wrth ofalu am bobl ar ddiwedd eu hoes yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oedd bron i un o bob pump (19%) o bobl a fu farw wedi cael unrhyw gyswllt â meddyg teulu naill ai'n bersonol neu dros y ffôn yn ystod eu tri mis olaf. Adroddwyd yn eang am anawsterau wrth gael mynediad at wasanaethau meddygon teulu.

> **"[Roedden ni'n] cael trafferth cael mynediad at y meddyg teulu, gan nad oedd derbynyddion o gymorth i hwyluso hyn. Roedd cynllun osgoi ysbyty ar waith ond roedd yn ddibynnol ar gael mynediad at feddyg teulu.**
>
> Bu farw o sawl cyflwr

Roedd y defnydd o ofal brys yn uchel, gyda bron i hanner y bobl fu farw'n defnyddio ambiwlans (48%) neu'n ymweld ag adran damweiniau ac achosion brys (45%) yn ystod eu tri mis olaf. Roedd nifer wedi profi amseroedd aros hir i ambiwlansys gyrraedd, neu wedi treulio oriau yn aros i gael eu gweld mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

> **“[...] Galwodd meddyg i'w weld gartref. [...] Galwodd hi ambiwlans [a] dywedodd ei fod yn hynod o frys. Arhoson ni fwy nag 8 awr. Cafodd ei gludo i'r ysbyty am 7pm, bu'n gorwedd yn yr ambiwlans tan 7.30am y bore canlynol.**
>
> Bu farw o gyflwr ysgyfaint

Mae gwasanaethau gofal cymunedol hygyrch ac effeithiol yn cefnogi lles cleifion a gofalwyr a gallant helpu i atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi ar ddiwedd hoes [10]. Mae mentrau fel Safonau Daffodil wedi'u datblygu i gefnogi ymarfer cyffredinol a fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwell gofal diwedd oes yn y gymuned [11]. Eto i gyd, mae anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau, meddyginiaeth, offer a chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol yn parhau, gyda phroblemau'n arbennig o amlwg yn ystod y cyfnod 'y tu allan i oriau'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gofal cymunedol drwy ei rhaglen Ymhellach, yn Gyflymach, gyda chyllid ychwanegol i Fyrddau Iechyd i gynyddu capasiti nyrsys ardal a nyrsys clinigol cymunedol arbenigol i ddarparu gofal diwedd oes [12]. Mae angen asesiad o ran a yw hyn wedi'i gyflawni, gyda dysgu yn cael ei rannu a neilltuo cyllid rheolaidd i gefnogi capasiti gofal lliniarol cymunedol a gofal diwedd oes wedi'u gwarantu i'r dyfodol.

## Cwrdd â blaenoriaethau pobl ar gyfer lle gofal a man y farwolaeth

Er bod llawer o bobl yn dweud eu bod yn dymuno cael gofal a marw gartref, mae hanner yr holl farwolaethau yng Nghymru yn digwydd yn yr ysbyty [13]. Mae lle gofal a marwolaeth yn fater cymhleth; ni ddylid ystyried marw gartref ynddo'i hun yn ddirprwy ar gyfer profiad diwedd oes da. Gall ffactorau lluosog effeithio ar hyn, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol, gallu teulu a ffrindiau i ddiwallu anghenion yr unigolyn, a'r amodau y tu mewn i'r cartref.

Roedd bron pob un (94%) o ymatebwyr yr oedd aelod o'u teulu wedi marw gartref yn teimlo mai dyna oedd y lle iawn, o'u cymharu ag 85% o'r rhai y bu farw yr aelod o'u teulu mewn hosbis, 73% o'r rhai y bu farw yr aelod o'u teulu mewn cartref gofal a 66% o'r rhai y bu farw yr aelod o'u teulu yn yr ysbyty. Mae hyn yn adlewyrchu y gall dewisiadau newid wrth i anghenion ddatblygu ac i rai, efallai na fydd y cartref yn opsiwn priodol neu hyfyw mwyach. Gall hyn beri gofid i ofalwyr teulu.

> **"Fe wnes i addo i fy nhad y gallai farw gartref ond oherwydd y diffyg cefnogaeth roedd yn rhaid i mi dorri'r addewid. Doeddwn i ddim yn gallu darparu'r gofal yr oedd ei angen arno.**
>
> Bu farw o ganser

Nododd yr arolwg enghreifftiau o brofiadau diwedd oes cadarnhaol mewn ysbytai, a hwylusir yn aml gan ymddygiad staff.

> **"Roedd yr ysbyty lle bu farw, y nyrsys a'r meddygon yn anhygoel. Roedden nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, yn gwneud yn siŵr ei fod yn gyfforddus. Pe byddem yn meddwl ar unrhyw adeg ei fod mewn poen, byddent yn ei asesu i dawelu ein meddyliau.**
>
> Bu farw o gyflwr ysgyfaint

I eraill, nid oedd yr ysbyty yn darparu'r amgylchedd priodol i'w hanwyliaid, ac nid oedd gan bron i hanner (46%) y bobl a fu farw yn yr ysbyty unrhyw ffrindiau na theulu'n bresennol.

> **"Dwi'n teimlo bod mam wedi dioddef anurddas wrth i'w marwolaeth nesáu. Roedd y dyddiau olaf yn amhersonol. Amgylchynwyd ei gwely gan len bapur las, doedd dim preifatrwydd, dim urddas. Bu'n rhaid i mi erfyn ar staff i'w symud i ystafell ochr, a gwnaethon nhw hynny yn y diwedd bum awr cyn iddi farw.**
>
> Bu farw o gyflwr ysgyfaint

Mae galluogi pobl i farw gartref os mai dyma yw eu dewis yn egwyddor graidd o bolisi gofal diwedd oes ac mae ganddo'r potensial i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng yn sylweddol. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid comisiynu gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion pobl, 24 awr y dydd. Gall partneriaethau rhwng darparwyr statudol a'r trydydd sector gynyddu capasiti cymunedol a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleifion a'u teuluoedd, ond nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael ledled Cymru gyfan i bawb mae eu hangen arnynt.

## Astudiaeth Achos:
## Gweithio mewn partneriaeth i ymateb yn gyflym i anghenion cleifion yn y gymuned

Mae gwasanaeth Hosbis Gartref Brys Marie Curie ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael ei arwain gan nyrsys cofrestredig a'i gefnogi gan gynorthwywyr gofal iechyd sy'n darparu gofal nyrsio lliniarol ac ymatebol a diwedd oes hyblyg, ar fyr rybudd i gleifion gartref. Mae'r gwasanaeth dros nos hwn ar gael rhwng 10pm a 7am, gan weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau a gwasanaeth Nyrsio Ardal dros nos. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys yr holl gleifion gofal lliniarol sy'n byw mewn lleoliad daearyddol y cytunwyd arno. Yn 2023/24, cefnogodd y gwasanaeth 600 o gleifion, a galluogi mwy na 95% i farw yn eu lle marw dewisol (o gleifion lle'r oedd yr wybodaeth hon yn hysbys).

# 3 Mae cleifion a theuluoedd yn dioddef pan fydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n wael, ac mae gweithwyr proffesiynol yn brin o amser

Dywedodd bron i hanner (47%) yr holl ymatebwyr eu bod yn anhapus ag un agwedd neu fwy ar y gofal a gafodd aelod o'u teulu, a gwnaeth un o bob 15 gŵyn ffurfiol. Roedd materion a arweiniodd at gwynion yn cynnwys gofal gwael neu dim gofal neu arosiadau hir, anghytundeb ynghylch gadael yr ysbyty neu asesiadau, a methu cyfathrebu neu rannu gwybodaeth.

> **"Doedd neb yn gwybod pwy oedd yn gwneud beth ac roedden ni fel teulu yn cael trafferth gwybod y llwybrau cywir a phwy i gysylltu â nhw. Roedd pobl yn disgwyl ein bod ni'n gwybod [...] Fe wnaethon ni dreulio oriau ac oriau yn cael ein trosglwyddo i bobl eraill er mwyn dod o hyd i'r person/adran iawn i helpu. Doedd neb yn cyfathrebu â'i gilydd.**
>
> Bu farw o gyflwr arall

Gyda llawer o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau gwahanol yn gysylltiedig, roedd yn peri trallod ac yn llethol i gleifion a'u gofalwyr pan oedd gofal yn cael ei gydlynu'n wael. Roedd cyfrifoldebau gofalu a gweinyddol sylweddol yn disgyn i deulu a ffrindiau, a oedd yn aml yn teimlo nad oeddent wedi'u paratoi at gyfer hynny nac yn cael eu cefnogi. Dywedodd llai na hanner (43%) o ymatebwyr yr arolwg bod ganddynt berson cyswllt allweddol i gydlynu eu gofal.

> **"[Roeddwn i] yn teimlo fy mod i'n cael fy ngadael ar fy mhen fy hun. Roedd yr holl gyfrifoldeb dros i fwyd, meddyginiaeth, apwyntiadau, gofal, ymgysylltu â llawer o wahanol bobl a gwasanaethau i gyd yn cwympo arna i. Doedd dim un pwynt cyswllt – roedd llawer o wahanol bobl yn neidio i mewn ac allan eto, ond doedd dim un person a oedd yn cydlynu'r cymorth.**
>
> Bu farw o ganser

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyflawni'r bwriad yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes ar gyfer un pwynt mynediad 24/7 i ofal cydgysylltiedig, meddyginiaeth a chyngor am ofal diwedd oes. Mae angen cynllun gweithredu a llinell amser ar gyfer cyflawni dyheadau'r Datganiad Ansawdd ym mhob Bwrdd Iechyd ar frys. Dylid archwilio modelau gwasanaeth mwy integredig ac arloesol o ofal a chydweithio ar draws y system hefyd, gan ddysgu o enghreifftiau o arfer da sy'n lleihau derbyniadau i'r ysbyty ac yn sicrhau gwell canlyniadau i gleifion, fel model REACT yn Bradford [14].

## Dim amser i ofalu

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg nad oedd gan staff ar draws lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddigon o amser i ddarparu gofal i bobl sy'n marw, neu nad oedd cymorth ar gael cyhyd neu mor aml ag y bo angen.

> **"Roedd y gofal lliniarol a'r nyrsys ardal a'r meddyg teulu yn wych, ond dim ond ychydig o weithiau'r wythnos daethon nhw am hanner awr.**
>
> Bu farw o ganser

> **"Er bod gennym feddyg teulu rhagorol, nid oedd bob amser yn hawdd cael gafael arno ac roedd hyn yn rhwystredig iawn ar adegau.**
>
> Bu farw o ddementia neu glefyd Alzheimer

Mae tystiolaeth amlwg o'r pwysau ar y gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae meddygon teulu, nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd yn darparu'r rhan fwyaf o ofal lliniarol, yn aml ochr yn ochr ag ystod o wasanaethau eraill. Er bod nifer y bobl y mae angen gofal lliniarol a diwedd oes arnynt wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gostyngodd nifer y meddygon teulu llawn amser dros 21% rhwng 2013 a 2022 [15]. Cynyddodd swyddi gwag nyrsio gan 58% rhwng 2021 a 2022 [16]. Rhaid i gynllunio gweithlu'r dyfodol ystyried y cynnydd sylweddol yn yr angen am ragolwg o ofal lliniarol ar gyfer y degawdau nesaf.

## Sgyrsiau am ofal diwedd oes yn digwydd yn rhy hwyr

Dylai pawb yng Nghymru sydd ag anghenion gofal lliniarol gael eu cefnogi i gymryd rhan mewn Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw a Gofal yn y Dyfodol (AFCP), gan roi'r cyfle iddynt drafod eu hanghenion, eu dymuniadau a'u dewisiadau ar gyfer gofal ar ddiwedd oes. Dylai'r dewisiadau hyn gael eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Eto i gyd, roedd un o bob pedwar (25%) o bobl a fu farw naill ai'n debygol neu yn bendant ddim yn gwybod y gallent farw oherwydd eu salwch, yn ôl aelodau o'u teulu. Dywedodd mwy nag un o bob tri (36%) o'r ymatebwyr eu bod ond wedi dod yn ymwybodol bod eu hanwyliaid yn marw ym mis olaf eu bywyd.

Er na fydd pawb eisiau neu'n gallu cael sgyrsiau am eu dymuniadau diwedd oes, dylid cynnig y cyfle i bawb. Dywedodd mwy nag un o bob tri (37%) o'r ymatebwyr nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi trafod marwolaeth a marw gyda'r person a fu farw, ac roedd un o bob pedwar (25%) ohonynt yn ansicr. Er bod y sgyrsiau hyn yn fwy tebygol o fod wedi digwydd rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a theulu'r person (66%), dywedodd rhai fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi delio â hyn yn wael.

> **"Roedd un meddyg [ysbyty] yn hynod lym a doedd dim llawer o empathi ganddo pan [glywson] ni fod fy nhad yn sâl tu hwnt a mwy na thebyg yng nghamau olaf ei fywyd.**
>
> Bu farw o strôc

Mae'n hanfodol bod gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol yr amser a'r sgiliau mae eu hangen i hwyluso AFCP. Gall systemau cydlynu gofal electronig gefnogi AFCP trwy gynnwys anghenion a dewisiadau mewn cofnodion gofal, y gellir eu rhannu ymhlith pawb sy'n ymwneud â gofal unigolyn gyda'u caniatâd.

# 4 Mae Gofalwyr di-dâl yn ymgymryd â rolau rhoi gofal sylweddol heb fawr o gefnogaeth

Mae gofalwyr di-dâl – sy'n tueddu i fod yn deulu ac yn ffrindiau – yn chwarae rôl hanfodol mewn gofal diwedd oes, ond yn aml nid yw eu hanghenion nhw'n cael eu cydnabod na'u cefnogi'n briodol. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg wedi bod yn ymwneud â gofalu am y person a fu farw: Fe wnaeth 54% eu helpu i fynd i apwyntiadau neu driniaeth, roedd 56% yn helpu gyda thriniaeth feddygol, a 76% yn treulio amser 'ar alw' (h.y. bod modd cysylltu â nhw os oedd angen), fel arfer am fwy na 50 awr yr wythnos. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt yr wybodaeth na'r sgiliau ond nad oeddent yn gallu cael gafael ar gefnogaeth ddigonol, gyda chyfathrebu gwael gan weithwyr proffesiynol a chydlynu gofal yn achos straen sylweddol.

> **"Roedd hi'n anodd oherwydd yn aml, doedden ni ddim yn siŵr os oedden ni'n gwneud y peth iawn. Cawson drafferth yn ei chodi, ei throi, ei chadw'n lân a mynd â hi i'r toiled. Dyna pam roedden ni'n ysu am ofalwyr i ddod i'n helpu – ond roedd prinder gofalwyr. Felly, dalion ni ati, ar ein pennau ein hunain, i wneud ein gorau glas.**
>
> Bu farw o ganser

Mewn llawer o achosion, roedd gofalwyr eu hunain yn fregus neu mewn iechyd gwael, yn enwedig lle cafodd y person a fu farw ddiagnosis o ddementia.

> **"[Dylai fod] mwy o gydnabyddiaeth a chefnogaeth i aelodau o'r teulu sy'n gwneud y gofalu - fy mam yn yr achos yma, roedd hi'n teimlo'n ynysig ac yn isel ei hysbryd oherwydd dim ond am gyfnodau byr o amser gallai adael fy nhad.**
>
> Bu farw o ddementia neu glefyd Alzheimer

## Astudiaeth Achos:
## Cefnogi pobl â dementia cyfnod hwyr a'u gofalwyr yng Nghymru

Lansiwyd Gwasanaeth Gofal a Seibiannau Dementia Marie Curie yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ym mis Hydref 2022 gyda chyllid gan Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r nifer cynyddol o bobl yn yr ardal sy'n byw gyda dementia cyfnod hwyr, gan eu galluogi i aros gartref trwy ddarparu gofal o ansawdd uchel ochr yn ochr â chymorth rhagweithiol i ofalwyr.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys dwy elfen gysylltiedig, mewn haenau yn ôl lefel angen y claf. Mae'r Gwasanaeth Cyfaill Dementia, sydd wedi'i staffio gan wirfoddolwyr hyfforddedig, yn darparu cymorth emosiynol, cymorth ymarferol a seibiant am hyd at dair awr yr wythnos i bobl â lefelau is o angen a'u gofalwyr. Mae'r Gwasanaeth Gofal Seibiant Dementia, wedi'i staffio gan Nyrs Gofrestredig a Chynorthwywyr Gofal Iechyd, yn darparu asesiadau i bobl ag anghenion mwy cymhleth, cymorth gyda gweithgareddau dyddiol, cefnogaeth emosiynol a seibiant. Gall pobl symud rhwng lefelau gwasanaeth wrth i'w hanghenion newid. Mae'r integreiddio hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon trwy ddarparu'r lefel fwyaf priodol o gymorth.

Mae'r gwasanaeth wedi cael derbyniad da, ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ei fod wedi atal anghenion cynyddol o ofal ac atgyfeirio at ysbytai a chartrefi gofal, gan ganiatáu darparu gofal gartref yn unol â dewisiadau pobl.

Wrth ragweld y bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn cynnyddu gan 70% rhwng 2019 a 2040, bydd cefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr yn dod yn rhan gynyddol bwysig o ofal diwedd oes.

Yn ogystal â bod yn anodd yn emosiynol ac yn gorfforol, gall gofalu am berthynas ar ddiwedd oes hefyd gael effaith ariannol a phroffesiynol. O'r ymatebwyr hynny sy'n dal i fod mewn gwaith, cymerodd 14% rhwng 31 a 90 diwrnod o absenoldeb â thâl neu'n ddi-dâl, a gwnaeth 6% roi'r gorau i'w swydd neu newid swyddi (gan gynnwys ymddeol yn gynnar) i ofalu am eu hanwyliaid. Dywedodd eraill eu bod wedi cwtogi cyflogau wrth iddynt leihau eu horiau i ddarparu gofal.

> **"Dwi dal yn y niwl ar ôl ei cholli. Dw i wedi lleihau fy oriau yn y gwaith, dw i wedi newid, mae bywyd wedi newid.**
>
> Galar anaflonyddedig

## Nid yw pobl sydd â galar aflonyddedig yn cael eu cefnogi'n ddigonol

I rai pobl, gall profedigaeth arwain at alar aflonyddedig: ymateb galar gwanychol sy'n achosi trallod seiciatrig. Roedd un o bob chwech (16%) o ymatebwyr yr arolwg yn bodloni'r meini prawf ar gyfer galar aflonyddedig, gyda chyfraddau uwch ymhlith ymatebwyr iau, ymatebwyr benywaidd, a'r rhai a oedd yn briod i'r person a fu farw.

**Nifer yr achosion o alar aflonyddedig ymhlith ymatebwyr yng Nghymru yn ôl eu perthynas â'r person a fu farw**



**(Ffynhonnell: Johansson et al., 2024, t. 110)**

Roedd gan ymatebwyr a oedd yn anhapus ag agweddau ar ofal neu a oedd yn teimlo nad oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi gwrando arnynt nac wedi cyfathrebu'n dda lefelau uwch o alar aflonyddedig.

> **“Dw i wedi ystyried gwneud cwyn sawl tro ond mae'r galar wedi bod mor llethol, dw i wedi gorfod dechrau dod i dderbyn popeth sydd wedi digwydd. Nid yw'r boen a'r euogrwydd byth yn fy ngadael.**
>
> Galar aflonyddedig

Nid oedd bron i bedwar o bob pump (79%) o'r rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer galar aflonyddedig wedi gallu cyrchu cymorth profedigaeth, gan awgrymu angen sylweddol nad yw'n cael ei ddiwallu.

# 5 Gwneud profiad diwedd oes da yn bosibl i bawb

Mae llawer o'r dyfyniadau a chanfyddiadau o'r ymchwil yn ddeunydd darllen sy'n cynhyrfu ac sydd weithiau'n frawychus. Fodd bynnag, roedd yna hefyd nifer o enghreifftiau o brofiadau gofal diwedd oes cadarnhaol.

> **"Roedd Mam a minnau'n ffodus i gael profiad cadarnhaol gan rai o'r bobl mwyaf anhygoel dwi erioed wedi cwrdd â nhw. Daeth y bobl hyn (staff) i fod fel teulu wrth i mi ymweld bron bob dydd am 6 blynedd.**
>
> Bu farw o ddementia neu glefyd Alzheimer

> **"Roedd y tîm gofal yn yr ysbyty lle bu farw yn anhygoel. Canmoliaeth i'r doctoriaid a'r nyrsys. Roedden nhw esbonio popeth cam wrth gam ac yn rhoi gwybod i ni'n rheolaidd beth oedd yn digwydd gydag e.**
>
> Bu farw o gyflwr ysgyfaint

Yng Nghymru, mae'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes eisoes wedi disgrifio'r gefnogaeth y dylai pawb y mae angen gofal lliniarol a gofal diwedd oes arnynt ei derbyn. Rydym yn gwybod beth yw gofal diwedd oes da, ond nid oes cynllun clir eto ar gyfer sut y bydd y Datganiad Ansawdd yn cael ei weithredu. Dylai mynd i'r afael â'r bwlch gweithredu hwn fod yn flaenoriaeth frys i Lywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd.

# Argymhellion polisi

| | Argymhelliad | I’w roi ar waith gan |
|---|---|---|
| **Gwneud profiad diwedd oes da yn bosibl i bawb** | Mae'n rhaid datblygu cynllun gweithredu a fframwaith monitro sy'n nodi sut y bydd dyheadau'r Datganiad Ansawdd a'r fanyleb gwasanaeth sydd ar ddod yn cael eu cyflawni ym mhob Bwrdd Iechyd. | • Llywodraeth Cymru |
| **Gwell cefnogaeth i boen a symptomau eraill** | Dylid adolygu trefniadau lleol ar gyfer rhagnodi gofal diwedd oes, gan gynnwys comisiynu a defnyddio pecynnau Rhag Ofn, i nodi a mynd i'r afael â bylchau ac annhegwch o ran mynediad. | • Byrddau Iechyd |
| | Dylid comisiynu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol i ddarparu set safonol o feddyginiaethau gofal lliniarol a sicrhau eu bod ar gael yn gyson 24/7. | • Byrddau Iechyd |
| | Dylid gwreiddio gofal lliniarol a gofal diwedd oes ar draws yr holl raglenni strategol perthnasol, rhwydweithiau clinigol, a Datganiadau Ansawdd sy'n benodol i gyflwr. | • Llywodraeth Cymru |
| **Darparu gofal cymunedol 24/7** | Rhaid cyflwyno mentrau i gynyddu capasiti gofal cymunedol, a dysgu drwy roi mentr ‘Ymhellach, yn Gyflymach’ ar waith a mentrau eraill a rennir, a neilltuo cyllid rheolaidd i gefnogi capasiti gofal lliniarol cymunedol a gofal diwedd oes wedi’u gwarantu ar gyfer y dyfodol. | • Llywodraeth Cymru<br>• Byrddau Iechyd<br>• Byrddau Partneriaeth Ranbarthol |
| | Dylid datblygu a chyflwyno proses gyfannol sy'n seiliedig ar ddata i asesu anghenion poblogaeth a phrofiadau o ofal lliniarol a diwedd oes ledled Cymru, gan alluogi dull mwy cydlynus o gomisiynu sy'n cynnwys partneriaid statudol a thrydydd sector. | • Llywodraeth Cymru<br>• Gweithrediaeth y GIG<br>• Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau integredig a gofal amserol a chydgysylltiedig** | Dylai systemau cydlynu gofal electronig weithio mewn ffordd sy'n annog eu defnydd parhaus a lle gellir rhannu'r cynnydd ar y defnydd ac argaeledd cofnodion a rennir, gan gynnwys cynllunio gofal ymlaen llaw, a'u harchwilio'n rheolaidd. | • Llywodraeth Cymru<br>• Gweithrediaeth y GIG<br>• Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| | Dylid cyhoeddi cynllun gweithlu gofal lliniarol a diwedd oes yn seiliedig ar amcanestyniadau wedi'u gwirio'n annibynnol o'r galw presennol ac yn y dyfodol. | • Llywodraeth Cymru<br>• Gweithrediaeth y GIG |
| | Dylai pob gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol gael ei ariannu i dderbyn hyfforddiant a chael amser i ddilyn canllawiau cenedlaethol clir ar gynllunio gofal ymlaen llaw ac yn y dyfodol. | • AaGIC<br>• Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl** | Dylid cyflwyno modelau ar gyfer darparu addysg i ofalwyr diwedd oes, gan ddysgu o enghreifftiau o arfer da fel hyfforddiant Cymorth Olaf yn yr Alban. | • Llywodraeth Cymru<br>• Byrddau Iechyd<br>• Awdurdodau Lleol |
| | Dylid datblygu a mabwysiadu pro-fforma o wybodaeth gofal iechyd allweddol sy'n ofynnol gan ofalwyr fel rhan o ofal arferol i bawb sydd â salwch datblygedig, ac fel rhan o'r cymorth sydd ar gael i bawb sy'n gofalu am rywun sydd â salwch angheuol. | • Byrddau Iechyd<br>• Awdurdodau Lleol |
| | Dylid treialu'r Adnodd Asesu Anghenion Cymorth i Ofalwyr (CSNAT) fel rhan o'r pecyn gofal i bobl ar ddiwedd eu hoes, er mwyn gwella asesiad a chymorth anghenion gofalwr. | • Gweithrediaeth y GIG<br>• Byrddau Iechyd<br>• Gofal Sylfaenol<br>• Awdurdodau Lleol |

# Cyfeirnodau

1. Marie Curie (2022) How many people need palliative care? https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/policy-publications/2023/how-many-people-need-palliative-care.pdf
2. Llywodraeth Cymru (2022) Y datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes. https://www.gov.wales/quality-statement-palliative-and-end-life-care-wales-html
3. Marie Curie (2022) Public Attitudes to Death and Dying in Wales. https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/policy-publications/2022/public-attitudes-to-death-and-dying-in-wales-2022.pdf
4. Marie Curie (2022) Better End of Life 2022: Sylwebaeth polisi Marie Curie ar 'Mind the gaps: understanding and improving out-of-hours care for people with advanced illness and their informal carers'. https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/beol-reports-2022/better-end-of-life-commentary-2022-final.pdf
5. O'Brien, E. et al. (2023) Impact of paramedics carrying just-in-case end-of-life care medication. Journal of Paramedic Practice Cyfrol 15, Rhif 11. https://doi.org/10.12968/jpar.2023.15.11.447
6. GIG Cymru. Pecyn CARiAD. https://executive.nhs.wales/networks/programmes/peolc/professionals/the-cariad-package/
7. B. et al. (2023) Is end-of-life anticipatory prescribing always enough? BMJ 2023; 381: t1106. https://doi.org/10.1136/bmj.p1106
8. NICE (2017) Care of dying adults in the last days of life: Quality standard [QS144]. Quality statement 3: Anticipatory prescribing. Quality statement 3: Anticipatory prescribing | Care of dying adults in the last days of life | Quality standards | NICE
9. Rosenwax, L., et al. (2016) A retrospective population based cohort study of access to specialist palliative care in the last year of life: who is still missing out a decade on? BMC Palliative Care, 2016. 15: p. 46.
10. Pask, S. et al. (2022) Better End of Life 2022 – Mind the gaps: understanding and improving out-of-hours care for people with advanced illness and their informal carers. Adroddiad ymchwil. https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/beol-reports-2022/better-end-of-life-report-2022.pdf
11. Daffodil Standards for General Practice: The RCGP and Marie Curie UK General Practice Core Standards for Advanced Serious Illness and End of Life Care: https://www.rcgp.org.uk/daffodilstandards; Daffodil Quality Improvement Standards for Community Pharmacy - RPS and Marie Curie UK Community Pharmacy Standards for Palliative and End of Life Care: https://www.rpharms.com/recognition/setting-professional-standards/daffodil-standards
12. Llywodraeth Cymru (2023) Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach. Datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-06/building-capacity-through-community-care-further-faster.pdf
13. SYG. Death registrations and occurrences by local authority and place of death: 2022. https://www.ons.gov.uk/datasets/weekly-deaths-local-authority/editions
14. Baines S. (2023) P-42 Findings from the evaluation of the Marie Curie reactive emergency assessment and community team (REACT) service. BMJ Supportive & Palliative Care 2023;13:A24-A25.
15. BMA Cymru (2013) Achub ein Meddygfeydd: GPC Cymru. https://www.bma.org.uk/media/7254/gp-report-save-our-surgeries-gpc-wales-welsh-final-web.pdf
16. Adroddiad RCN Cymru (2023) Niferoedd Nyrsio 2023. RCN Niferoedd Nyrsio 2023 | Cyhoeddiadau | Coleg Brenhinol Nyrsio

# Rhagor o wybodaeth

**Jon Antoniazzi**
Cyfarwyddwr Cyswllt Polisi a Materion Cyhoeddus, Cymru
✉ jon.antoniazzi@mariecurie.org.uk

Elusen Marie Curie rhif cofrestru elusen 207994 (Cymru a Lloegr), SC038731 (yr Alban). M420

Better End of Life 2024

# Time to care in Wales

## Implications for Wales of ‘Time to care: Findings from a nationally representative survey of experiences at the end of life in England and Wales’

**Policy briefing**

Marie Curie

**August 2024**

# Context

The number of people who need palliative and end of life care in Wales is growing. As our population ages, more people are living longer, often with multiple complex conditions. In 2019, an estimated 30,000 people in Wales needed palliative care [1]. By 2022 this had risen to more than 32,000. If current trends continue approximately 37,000 people will die with palliative care needs each year by the 2040s.

